Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 30 Ionawr 2020 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 24 Ionawr 2020.

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Y Cynghorydd Sir Dan De'Ath (Arglwydd Faer) |
| | Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Rees, Dianne Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

| CYNGHORYDD | RHIF EITEM | NATUR Y BUDDIANT |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Carter | 6 - Papur Gwyn Trafnidiaeth. | Buddiant rhagfarnus oherwydd cyflogaeth |
| Y Cynghorydd Lay | 13 – Bws Caerdydd – Ail-benodi Cyfarwyddwyr Anweithredol Annibynnol | Buddiant Personol - Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Sandrey | 13 | Buddiant Personol - Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Owen Jones | 13 | Buddiant Personol - Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Williams | 9 - Datganiad Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles | Buddiant Personol, Cyfarwyddwr ac Ymddiriedolwr Cartrefi Gofal Cartref |

| | | |
|---|---|---|
| | 9 - Datganiad Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth | Buddiant Personol, Perchennog Eiddo ar Heol y Porth |
| Y Cynghorydd Gavin Hill-John | 13 | Buddiant Personol - Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Wild | 9 - Datganiad Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth | Cynghorydd Ward Glan-yr-Afon |

3 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019 fel cofnod cywir.

4 : DEISEBAU

Cyflwynwyd y deisebau canlynol

| CYNGHORYDD | NIFER Y LLOFNODION | CAIS |
|---|---|---|
| Sandrey | 1200 | Yn galw ar y Cyngor i sicrhau bod cyffordd Pentwyn Drive/Glyncoed Road yn fwy diogel ar gyfer gyrwyr a cherddwyr. |
| Simmons | 300 | Yn galw ar y Cyngor a Heddlu De Cymru i osod offer rheoli cyflymder ar Heol Ebwy a Heol Trelái. |

5 : CYHOEDDIADAU’R ARGLWYDD FAER

Gwnaeth yr Arglwydd Faer longyfarch y Cynghorydd Goodway a dderbyniodd OBE a'r Cynghorydd Cowan a dderbyniodd MBE yn rhestr anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd. Cafodd y Cynghorydd Goodway ei OBE am ei wasanaethau i Lywodraeth Leol. Yn gynghorydd am dros 40 mlynedd, ef oedd arweinydd cyngor ieuengaf Prydain pan roedd yn arwain Cyngor Sir De Morgannwg yn 1992. Nawr fel yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, roedd y Cynghorydd Goodway yn ffigwr canolog yn natblygiad y ddinas.

Cafodd y Cynghorydd Cowan ei MBE am wasanaeth gwleidyddol a chyhoeddus. Wedi'i hethol yn gyntaf yn 1999, mae ymrwymiad Jayne wedi bod yn gwneud gwahaniaeth, gan hyrwyddo balchder dinesig a gweithredu cymunedol, trwy ymwneud â llawer o elusennau lleol a’u trefnu.

## 6 : PAPUR GWYN TRAFNIDIAETH: GWELEDIGAETH DRAFNIDIAETH CAERDYDD - 2030

Rhoddwyd cyfle i'r Cyngor drafod y Papur Gwyn, y cytunodd y Cabinet arno ar 23 Ionawr 2020. Roedd y Cabinet wedi cytuno i atgyfeirio'r Papur Gwyn Gweledigaeth Drafnidiaeth at y Cyngor i'w nodi.

Cyfeiriwyd yn ôl at ddau beth.

Cyfeiriwyd yn ôl at y peth cyntaf gan y Cynghorydd Adrian Robson a eiliwyd gan y Cynghorydd Shaun Jenkins.

Cyfeiriwyd yn ôl at yr ail beth gan y Cynghorydd Rodney Berman a eiliwyd gan y Cynghorydd Joe Boyle.
Cynigiodd y Caro Wild yr adroddiad.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Thomas.

Cynigiodd Adrian Robson y cyfeiriad yn ôl cyntaf. Eiliwyd y cyfeiriad yn ôl gan y Cynghorydd Shaun Jenkins.

Cynigiodd y Cynghorydd Rodney Berman yr ail gyfeiriad yn ôl. Eiliwyd y cyfeiriad yn ôl gan y Cynghorydd Joe Boyle.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y Papur Gwyn Trafnidiaeth.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Caro Wild fel cynigydd yr adroddiad i ymateb i'r materion a godwyd yn y drafodaeth.

Dechreuodd yr Arglwydd Faer bleidlais ar y cyfeiriad yn ôl cyntaf.

COLLWYD y cynnig cyntaf i gyfeirio’n ôl.

Dechreuodd yr Arglwydd Faer bleidlais ar yr ail gyfeiriad yn ôl.

COLLWYD yr ail gynnig i gyfeirio’n ôl

Dechreuodd yr Arglwydd Faer bleidlais ar y Cyngor yn nodi’r adroddiad.

NODWYD yr adroddiad.

## 7 : ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - ADRODDIAD I DDILYN

Cyflwynodd Cadeirydd y Gwasanaethau Democrataidd, y Cynghorydd Jones-Pritchard, adroddiad blynyddol 2019 Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd. Cyfeiriodd y Cadeirydd at waith y Pwyllgor a'r gwasanaethau cymorth y mae Cynghorwyr wedi'u derbyn i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau amrywiol fel cynrychiolwyr etholedig, arweinwyr cymunedol ac eiriolwyr dros etholwyr sy'n dod atynt gydag amrywiaeth eang o waith achos.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y newidiadau a wnaed yng Ngwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau wedi penodi Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau newydd.

Roedd y Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar y canlynol:

- Rheoli diogelwch personol Cynghorwyr
- Lles Cynghorwyr
- Arbedion effeithlonrwydd – symud tuag at ddefnydd digidol a llai o bapur.
- Hyfforddiant Cymraeg ar-lein
- Arolwg Aelodau
- Cyfleoedd Hyfforddi a Datblygu – lefelau o bwysigrwydd.
- Costau Gofal IRPW

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gyfraniad a chwestiynau i'r Cadeirydd gan Aelodau Etholedig. Codwyd nifer o faterion.

- Anawsterau wrth gael dyfeisiau diogelwch personol "ARCHIE"
- Swyddi Cymraeg hanfodol yn y Gwasanaethau Democrataidd
- Asesiadau ar gyfer y dyfeisiau diogelwch personol

Croesawodd y Cadeirydd y sylwadau a ddaeth i law gan addo i ystyried yr eitemau hyn fel rhan o gynllun gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: nodi Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

8 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CYNGHORI RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol, y Cynghorydd Sarah Merry, Adroddiad Blynyddol 2019 y Pwyllgor. Diolchodd y Cynghorydd Merry i'w chyd-aelodau ar y Pwyllgor ynghyd â staff rhagorol y Cyngor am eu gwaith caled a'u hymroddiad parhaus i sicrhau lles plant a phobl ifanc Caerdydd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y materion cymhleth a'r heriau enfawr a wynebir er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, er mwyn sicrhau bod plant yn llwyddo a'u bod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel.

Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- atal, cefnogi teuluoedd ac atal plant rhag angen derbyn gofal yn y lle cyntaf;
- sut i wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â gwella profiadau o’r system gofal.
- Bu ymgysylltu â phobl ifanc gan roi cyfle iddynt chwarae rhan annatod yn y gwaith o gynllunio a dylunio gwasanaethau, gan gynnwys llunio'r ddogfen Strategaeth Rhianta Corfforaethol ei hun.
- Cael mewnwelediad a gonestrwydd gan bobl ifanc drwy'r arolwg Bright Spots er mwyn helpu i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu deall a'u clywed.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gyfraniad a chwestiynau i'r Cadeirydd gan Aelodau Etholedig. Codwyd nifer o faterion.

- Annog Aelodau'r Panel Rhianta Corfforaethol a'r Panel Craffu Plant a Phobl Ifanc ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y maes hwn i siarad â Chynghorydd Annibynnol y Cyngor;
- Strwythur yr Adroddiad Blynyddol yn y dyfodol;
- Yr angen am Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a Phwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol;
- Unigrywiaeth y Pwyllgor o ran y ffaith bod modd cael ffrydiau gwaith unigol.

PENDERFYNWYD: Nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol.

9 : DATGANIADAU

Derbyniwyd y datganiadau canlynol a gofynnwyd cwestiynau i'r Aelodau am faterion o fewn y datganiad.

Datganiad yr Arweinydd
Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau a godwyd ar y canlynol:

- Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd, ei ffiniau a hyrwyddo diwylliant yn ei gyfanrwydd ar draws y ddinas; a
- Ymgysylltiad â phroses ymgynghori'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Datganiad yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu
Ymatebodd y Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Yr Arena Dan Do ac adeiladu Ffordd Gyswllt Dwyreiniol y Bae;
- Dyfodol Neuadd y ddinas a'r Plasty; a
- Y ffaith bod Cwrt Insole yn destun Trosglwyddiad Asedau Cymunedol heb unrhyw rwymedigaeth weddilliol i'r awdurdod.

Datganiad yr Aelod Cabinet, Diwylliant a Hamdden
Ymatebodd y Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Data am leihau nofio am ddim i bobl 60 oed;
- Rhoi manylion i'r cyhoedd, drwy'r wefan, am leoliad y coed gaiff eu torri a'u plannu, a sut y caiff y gwaith hwn ei wneud yn raddol.
- Y nod yw cynyddu nifer y coed yn y ddinas. Ceisio cael dull cytbwys o blannu a thorri coed; a
- Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi a chymorth posibl gan y Cyngor ar gyfer hynny.

Datganiad y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau
Ymatebodd y Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Perfformiad ysgol mewn perthynas â'r rhai sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol a'r rhai sy'n cael eu haddysgu gartref;
- Penodi MD newydd Consortiwm Canolbarth y De a'r adolygiad sydd wedi bod yn digwydd;
- Canlyniadau rhagorol mewn ysgolion ledled Caerdydd; a
- Cynllun Teithio Llesol

Datganiad yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad
Ymatebodd y Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Pryderon am faint o amser y mae'n ei gymryd i gael bagiau gwastraff wedi'u danfon naill ai drwy'r app symudol neu'r wefan. Mae adborth mewn perthynas â defnyddio'r app yn bwysig;
- Yr adolygiad o System Recriwtio TalentLink a systemau eraill o ran cydraddoldeb, y adroddir ei ganlyniadau maes o law;
- Defnyddio'r app symudol mewn perthynas ag edrych ar hysbysiadau ar gyfer cynigion fel llinellau melyn dwbl a cheisiadau cynllunio; a
- Sut mae'r app symudol yn cael ei hyrwyddo.

Datganiad yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau
Ymatebodd y Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd a diolch i'r timau sydd wedi bod yn rhan o’r gwaith hwn;
- Yr amserlenni a'r ymgynghori mewn perthynas â'r adolygiad strategol o bobl sengl sy'n ddigartref ac sy'n agored i niwed yng Nghaerdydd;
- Safonau Llyfrgelloedd Cymru, y gwelliannau i lyfrgelloedd ac ailenwi Llyfrgell yr Eglwys newydd; a
- Diogelwch cymunedol a'r diweddariadau a ddarperir yn y gwahanol wardiau.

Datganiad yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a’r Amgylchedd
Ymatebodd y Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Yr Ymgyrch Sticer Pinc a'r gwaith parhaus gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaeth newydd i ailgylchu cewynnau a fydd yn cael ei gyflwyno ledled Cymru;
- Amserlenni ysgubo strydoedd;
- Y cynnydd yn y gwaith a wneir gan y CTS;
- Estyn y Gwasanaeth Cofrestru i Hyb Rhiwbeina; a
- Rhoi dirwyon am faw cŵn.

Datganiad yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles
Ymatebodd y Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Cwrdd â therfynau amser ar gyfer cofrestru Gweithwyr Gofal Cartref a chynllun wrth gefn; A
- Cyflwyno canolfannau lles yng ngogledd Caerdydd

Datganiad yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth
Ymatebodd y Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Yr ymgynghoriad ar y CDLl a sut y gall pobl gymryd rhan;
- Yr amserlen ar gyfer cwblhau Beicffordd Senghennydd Road;
- Cynllun peilot Strydoedd Ysgol ac a ellir ychwanegu ysgolion eraill at y cynllun peilot a'r angen i ystyried unrhyw achosion unigol;
- Canlyniadau monitro ansawdd aer a nifer y tiwbiau tryledol wedi'u gosod;
- Ymgynghori â'r fflyd tacsis mewn perthynas â gweithredu'r polisi diwygiedig a gyrwyr yn newid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn; a
- Siarter Teithio Iach;

10 : CWESTIYNAU AR LAFAR

Cwestiwn – y Cynghorydd Walker

Bydd y canlyniadau mathemateg TGAU heb eu tebyg o'r blaen yn Ysgol Uwchradd Fitzalan lle enillodd dosbarth o 30 disgybl blwyddyn 11 a safodd arholiad cynnar A* wedi creu argraff ar bob aelod. Fel arfer 20% sy'n ennill A* ym mathemateg. Llongyfarchwch y disgyblion hyn, y pennaeth ac yn benodol yr athro a addysgodd y dosbarth hwn, Mr Elive.

A ydych yn cytuno na ddylai canlyniad anarferol a rhagorol o'r fath mewn pwnc allweddol fynd trwy broses drylwyr, dan arweiniad Cyngor, o ddysgu am yr arddull a'r dulliau a ddefnyddiwyd i'w greu? Rhaid bod cyfle, yn sicr, i rannu dulliau o'r fath o fewn yr awdurdod hwn a hyd yn oed yn ehangach.

Ateb - y Cynghorydd Merry

Byddwn wrth fy modd yn llongyfarch Mr Elive unwaith eto ar y cyflwyniad eithriadol. Rwy'n sicr bod Cynghorydd Pwnc Arbenigol Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer mathemateg eisoes wedi bod mewn cysylltiad â Fitzalan.

Gall ysgolion gael mynediad at ddysgu proffesiynol o safon drwy Her Canol De Cymru. Ac mae'r dull hwn yn cydnabod mai ymarferwyr sy'n cael y dylanwad mwyaf ar arfer ei gilydd a bod rhannu arfer drwy ymholi yn darparu'r profiadau dysgu proffesiynol gorau.

Rwy'n credu bod athrawon weithiau'n dysgu orau gan ei gilydd yn hytrach na chael cyfarwyddyd gan yr Aelod Cabinet o'r maes addysg o ran sut i wneud hynny.

Caiff arfer ragorol ei rannu hefyd drwy Ymgynghorwyr Her yn defnyddio gwaith Hybiau ac Ymarferwyr Arweiniol.

Ond hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle i longyfarch yr holl waith sy'n digwydd yn yr ysgol a hefyd o fewn y gymuned. Rwy'n ymwybodol o'r clybiau gwaith cartref, er enghraifft, yn 'Tiger Bay Youth Run', gyda chymorth athrawon Fitzalan. Rwy'n credu, yn anffodus, o ran addysgu rhagorol, efallai y byddwn yn cytuno ar yr hyn sy'n gwneud athro rhagorol, ond does dim rysáit bendant y gallwn ei hefelychu a'i ebostio at ein hathrawon a dweud wrthyn nhw bod angen ei dilyn.

Rwy'n hoffi colofn y Times a ddywedodd 'What makes a great teacher is a love for their subject and an ability to pass it on'. A chredaf fod hwnnw'n rhywbeth y byddwn yn cytuno ag ef.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Walker

Fel y gallwch weld o'm cwestiwn, rwy'n credu bod y llongyfarchiadau'n haeddiannol ond nid ydynt yn ddigon mewn ffordd. Rwy'n credu y gallai hyn newid pethau o ran addysgu mathemateg a phan fyddwch yn cymharu 100% gyda 14% a nodoch yn eich adroddiad heno ar gyfer mathemateg A*, mae bwlch enfawr rhwng y ddau.

A byddwn yn awgrymu bod cyfle, nid i chi fel Aelod Cabinet ond yn sicr i'r Cyfarwyddwr Addysg, wneud rhywbeth mwy penodol o ran ceisio darganfod a oes dulliau, gwn fod arddulliau addysgu penodol na allwch eu hefelychu, os oes dulliau y gallai athrawon eraill ddysgu ohonynt ac y gellid eu cofnodi mewn rhyw ffordd?

Felly, byddwn yn gofyn i chi ystyried gofyn i'r Cyfarwyddwr edrych yn ofalus ar hynny, ac a fydd Consortiwm Canolbarth De Cymru yn llunio adroddiad arno. Rwy'n credu y byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn gweld hynny ac rwy'n siŵr y bydd aelodau eraill am weld yr adroddiad.

Ateb - y Cynghorydd Merry

Fel y dywedais, mae Cynghorydd Pwnc Arbenigol Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer mathemateg wedi bod mewn cysylltiad â Fitzalan.

Yr hyn y byddwn i'n ei ddweud serch hynny, rwy'n credu bod addysgu gwych yn dod o hoffter o'r pwnc a brwdfrydedd, ond hefyd o'r hyn rwy'n ei glywed, y cymorth y mae'n ei gynnig i'w ddisgyblion. A chredaf efallai mai un o'r gwersi y gallem eu dysgu yw y dysgir addysgu gwych orau yn yr ystafell ddosbarth o bosibl ac yn llai yn y cyrff canolog sy'n ceisio rhoi gorchmynion i athrawon yn yr ystafell ddosbarth.

Ond rwy'n edrych ymlaen at unrhyw wersi y gallwn eu dysgu am sut y gwnaeth y fath gamp yn bosibl. A hefyd hoffwn ddiolch i'r disgyblion am eu cyflawniad, rwy'n credu na ddylai'r athro gael yr holl glod am y canlyniadau.

Cwestiwn – y Cynghorydd Sandrey

Wedi i berson ifanc 17 oed gael ei drywanu yn Llanedern, beth mae'r Cyngor yn ei wneud i annog pobl ifanc i beidio â chludo cyllyll?

Ateb – y Cynghorydd Thorne

Mae bob amser yn drist ac yn drasig iawn pan fydd digwyddiadau fel hyn yn digwydd o fewn ein cymunedau, ond nid yw hyn yn rhywbeth y gall y Cyngor fynd i'r afael ag ef ar ei ben ei hun.

Mae gwaith partneriaeth effeithiol rhwng y Cyngor a'i bartneriaid, gan gynnwys yr heddlu a'r Trydydd Sector, yn hanfodol i lwyddiant datblygu a gweithredu mentrau i annog pobl ifanc i beidio â chludo cyllyll.

Mae atal trais yn un o brif flaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd a, thrwy ei dull gweithredu lleol, mae'n datblygu ystod o gyfleoedd i bobl ifanc yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas, megis Butetown a Sblot a Thremorfa.

Mae Hybiau a Gwasanaethau Ieuenctid y ddinas hefyd yn parhau i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd, gweithgareddau dargyfeiriol a llwybrau i bobl ifanc wneud dewisiadau cadarnhaol yn eu bywydau a bydd hyn yn datblygu ymhellach drwy'r Hybiau Ieuenctid.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Sandrey

Beth fyddech chi'n ei ddweud wrth y gymuned o ran eu rôl yn ceisio annog pobl i beidio â chefnogi'r math hwn o weithgarwch troseddol?

Ateb – y Cynghorydd Thorne

Nid wyf yn weithiwr proffesiynol a all roi cyngor i gymunedau, ond byddwn yn dweud bod llawer iawn yn digwydd a gallai fy ateb fod wedi mynd ymlaen am byth. Mae gen i restr o brojectau sy'n cael eu cynnal ac rwy'n credu y gallwn ni, fel Cynghorwyr, drwy'r cyfryngau cymdeithasol, Facebook, Twitter, hyrwyddo rhai o'r cynlluniau hyn mewn gwirionedd.

Ond mae angen i ni hefyd annog rhieni i gymryd rhan oherwydd mae'n ymwneud â'r rhieni'n deall beth mae'r plant yn ei wneud, ble y maent ac a oes gan eu plant yr ofnau hyn, oherwydd weithiau'r peth trist yw mai rhieni yw'r olaf i wybod yn aml. Mae llawer iawn yn digwydd a byddaf yn rhannu'r wybodaeth hon gydag Aelodau ar draws y Cyngor fel ein bod i gyd yn gwybod beth sy'n digwydd.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Keith Parry

Mae pryder wedi'i fynegi ynghylch arafwch cyflwyno parthau ugain milltir yr awr yng ngogledd-orllewin Caerdydd. Pryd y gallwn ddisgwyl i'r Tyllgoed a'r ardaloedd cyfagos gael parthau o'r fath?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Ar yr adeg, nid oedd pobl o blaid y parthau 20mya yn llwyr. Ond yn awr mae pobl ar draws y Siambr yn mynnu ei fod yn cael ei wneud yn gynt, sy'n beth da i'w glywed.

Disgwylir i'r ddinas fewnol gael ei chwblhau yn ystod y cyfnod hwn a'r flwyddyn nesaf. Dydw i ddim yn cytuno â'r arafwch, ni yw un o'r dinasoedd cyntaf i fabwysiadu hyn. Mae parthau yn bron hanner y ddinas. Rydym am gael y parthau yn y gogledd-orllewin a lleoedd fel y Tyllgoed cyn gynted â phosibl.

Rydym yn cynnal astudiaeth i sut y byddwn yn gosod terfyn 20mya ar draws y ddinas gyfan.

Cwestiwn – y Cynghorydd Owen-Jones

Beth yw cynllun hirdymor y Cyngor ar gyfer Sgwâr y Ddinas?

Ateb – y Cynghorydd Goodway

Mae'r Cyngor bob amser wedi nodi bod y lle hwn yn rhan bwysig o ardal gyhoeddus y ddinas, gan mai dyma'r porth i Gaerdydd. Cofiaf yn dda y sylwadau negyddol iawn yr oedd pobl yn arfer eu gwneud am yr argraff wael o'r ddinas a roddwyd gan yr ardal cyn iddi gael ei hailddatblygu.

Bydd angen i'r lle fod yn hynod o hyblyg ac addasadwy er mwyn bodloni amrywiaeth o anghenion, o reoli'r dorf ar ddiwrnodau digwyddiadau'r stadiwm i le digwyddiad. O'r herwydd, bydd angen ei reoli'n effeithiol.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda'r datblygwr a phrif denantiaid y Sgwâr Canolog i gytuno ar gynllun rheoli ar gyfer y lle cyhoeddus hwn. Byddwn yn archwilio amrywiaeth o atebion rheoli a fydd, gobeithio, yn elwa o gyfraniad ariannol gan y tenantiaid hynny gyda'r nod o gynhyrchu'r incwm sydd ei angen i gynnal trefn lanhau a chynnal a chadw o ansawdd uchel ar gyfer yr ardal, fel y bydd yn creu argraff gyntaf gadarnhaol barhaus o'r ddinas a rhan gyffrous a hyblyg o ardal gyhoeddus y ddinas.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Owen-Jones

Y Sgwâr Canolog nid Sgwâr y Ddinas fel rwyf wedi'i alw, yw'r porth i Gaerdydd ond hefyd y Porth i brifddinas Cymru, mae cwpan y chwe gwlad yn dod yn fuan a bydd miloedd o gefnogwyr o'r Eidal, yr Alban a Ffrainc yn cyrraedd drwy'r orsaf honno. Pan oeddwn i wedi mynd i Gaeredin gan ymddwyn yr holl amser ar y daith, rydych chi'n gwybod yn syth eich bod yn yr Alban a gorsaf Caeredin, ac mae tartan ymhobman. Byddai'n braf cael y math hwnnw o effaith yn mynd i mewn i Orsaf Ganolog Caerdydd - yn gwybod rydych yng Nghymru. Un opsiwn sydd wedi cael ei gyflwyno i mi; rydych yn gweld arwyddion llwyddiannus iawn, geiriau mawr yn Amsterdam gyda phawb yn postio lluniau ohonynt ar Facebook. Pe bai modd i ni gael Caerdydd anferth yn y Sgwâr Canolog dim ond i'w ddangos, neu Caerdydd fydd yn well hyd yn oed. Mae'n deimlad o le, mae'n atyniad i dwristiaid bydd pobl yn tynnu lluniau ohono ac yn ei rannu ar Facebook. Mae'n ffordd o ddefnyddio'r lle hwnnw i ddangos mai Caerdydd, prifddinas Cymru yw'r lle mynediad.

Ateb – y Cynghorydd Goodway

Am eiliad ofnadwy roeddwn i'n meddwl eich bod yn mynd i awgrymu Draig! Ond rwy'n deall yr hyn rydych yn ei olygu a byddwn yn meddwl am sut y gallem gyflawni hynny ond mae popeth yn tueddu i fod yn ddadleuol yn yr ardaloedd hyn, a gwyddoch fy mod wedi treulio oes wleidyddol yn osgoi dadlau.

Daeth yr arwydd yn Amsterdam yn ddadleuol hyd yn oed, credwch neu beidio, ac felly maent wedi'i symud erbyn hyn. A hynny oherwydd bod ofn ei fod wedi dod yn symbol o dwristiaeth dorfol ddifeddwl ac yn rhy unigolyddol. Roedd y person oedd yn gyfrifol am orfod ei symud yn gynghorydd dinas asgell chwith ac arweinydd Amsterdam a ddywedodd ei bod am ddangos rhywbeth gwahanol – amrywiaeth, goddefgarwch a chydsafiad. Felly, ar sail peidio â thorri arferion oes ac ypsetio'r asgell chwith cawn arwydd mawr yng Nghaerdydd.

Cwestiwn – y Cynghorydd Owen

Mae llawer o drigolion Caerdydd yn profi tagfeydd traffig sy'n gyrru i'r de ar hyd Caerphilly Road ac yn aros i droi i'r dde i Heol Ty-wern i gyfeiriad Rhiwbeina a'r Eglwys Newydd yn aml iawn. A wnewch chi gyflwyno system saeth werdd yn ogystal â'r signal gwyrdd llawn i helpu i glirio'r traffig sy'n aros i droi i'r dwyrain oddi ar Caerphilly Road ar ôl y cyfnod gwyrdd llawn?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Fel y mae wedi'i gynllunio yn barod, ni fyddai'n ymarferol addasu trefniant presennol y gyffordd i ddarparu hidlydd ar gyfer traffig sy'n troi i'r dde i Ty-wern Road o Caerphilly Road. Fodd bynnag, byddaf yn gofyn i swyddogion ymchwilio i opsiynau posibl ar gyfer addasu amseroedd signalau presennol er mwyn darparu amser clirio ychwanegol ar gyfer y tro dan sylw.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Owen

Dyna beth oedd fy nghwestiwn atodol, a yw hynny'n bosibl - rwy'n falch iawn o hynny, diolch yn fawr.

Cwestiwn 6 – y Cynghorydd Taylor

A yw'r arweinydd yn derbyn barn arbenigwyr a'r Llywodraeth, ynghyd â'r holl dystiolaeth ryngwladol sy'n datgan mai'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod plant yn rhugl yn y Gymraeg yw drwy addysg cyfrwng Cymraeg, ac nid addysg ddwyieithog?

Ateb – y Cynghorydd Huw Thomas

Ydw.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Taylor

Canfu Comisiynydd y Gymraeg rai misoedd yn ôl bod llawer o ysgolion dwyieithog yng Nghymru nad oeddent yn cyrraedd y trothwy o ran ymrwymiad yr ysgol honno i ddarparu lefel yr addysg yn y Gymraeg. Felly pa fath o sicrwydd y gallwn ei roi i rieni a fydd yn anfon eu plant i'r ffrwd Cymraeg yn yr ysgol ddwyieithog honno y byddant yn cael addysg dda drwy gyfrwng y Gymraeg?

Ateb – y Cynghorydd Huw Thomas

Rhys, rydych yn codi pwynt pwysig yno gan nad yw'r ysgol hon yn ysgol ddwyieithog a gynigir ym Mhlasdŵr. Mae'n ysgol sydd ag un ffrwd gwbl Gymraeg ac un ffrwd ar wahân a fydd yn ddwyieithog gydag addysg Gymraeg ac addysg Saesneg 50-50.

Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig i bobl ddeall, os ydych am anfon eich plant i gael addysg Gymraeg ym Mhlasdŵr, bod angen eu hanfon i'r ffrwd Gymraeg. Os ydych chi'n dewis addysg Saesneg, yna byddwn ni yn y model hwn yn sicrhau eu bod yn dal i gael 50% o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. A dyna pam mae'r model hwn wedi'i gymeradwyo gan arbenigwyr yn y maes gan gynnwys Merion Prys Jones, cyn Gadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg sydd wedi edrych ar dystiolaeth o sut mae'r model hwn wedi gweithio yng Ngwlad y Basg ac wedi dod i'r casgliad, ac wedi rhoi adborth ar hyn i'r pwyllgor craffu yr wythnos diwethaf. Ac fe ddengys fod y model yma wedi gweithio yng Ngwlad y Basg er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Basgeg yno ac mae Estyn hefyd wedi dweud fod yr hyn rydym yn ei gynnig yn gwbl gyson â Strategaeth Cymraeg 2050 am ei bod nid yn unig yn darparu ac yn ymestyn y ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg yn y ffrwd Gymraeg ond hefyd yn normaleiddio ac yn ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y ffrwd Saesneg.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Gordon

Allwch chi roi gwybod inni a yw'r ddeiseb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Cyngor ynghylch parcio peryglus ar gyffordd Hillsnook Road, Trelái, wedi'i hymchwilio'n llawn eto?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Gallaf gadarnhau ein bod wedi cwblhau ein hymchwiliad i'r pryderon a godwyd yn y ddeiseb ac wedi siarad â'r heddlu amdanynt.

Rydym wedi paratoi cynllun i gyflwyno cyfyngiadau aros a llwytho ychwanegol wrth gyffordd Hill Snook Road / Heol Orllewinol y Bont-faen ac o’i hamgylch. Roedd y cynigion hyn yn destun ymgynghoriad ag aelodau ward lleol o 6 Tachwedd 2019 i 4 Rhagfyr 2019.

Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaethau cyfreithiol yn paratoi hysbysiadau safle ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion hyn.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Gibson

Gallwch ddeall fy mhryder - cafodd y ddeiseb ei chyflwyno tua 4 mis yn ôl. Tybed a yw arwyddion a chyfyngiadau aros yn mynd i weithio gan fod pobl yn anwybyddu'r llinellau melyn dwbl sydd yno beth bynnag. Ac rwy'n eithaf siŵr y bydd pobl yn dal i barcio ar y palmant, ni waeth a ydynt yn rhwystr i'r traffig sy'n dod allan o Hill Snook Road, dyna lle y digwyddodd y ddamwain a’r farwolaeth yn drist.

Felly, tybed a fydd y mesurau hyn yn ddigonol?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Gwnaethom ofyn i aelodau ward. Cawsant gyfnod o ymgynghori cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Dydw i ddim yn siŵr ein bod wedi derbyn yr ymatebion hynny gennych. Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus bellach ar waith a gallwch chi roi eich sylwadau yn ystod y cam hwnnw.

Cwestiwn – y Cynghorydd Burke-Davies

Mae preswylwyr yn fflatiau Lydstep wedi bod yn aros yn amyneddgar i'r Cyngor ddatrys problemau gyda'r cladin ar eu hadeiladau. All yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y cladin?

Ateb – y Cynghorydd Thorne

Mae'r Cyngor wedi comisiynu Atkins, cwmni peirianneg allanol, i helpu gyda'r gwaith o osod cladin newydd. Mae cam cyntaf y gwaith hwn – arfarniad o ddewisiadau – bellach wedi'i gwblhau.

Cynhaliwyd cyfarfod i breswylwyr yn ddiweddar ac roedd y swyddogion yn gallu dweud mai cladin wedi'i seilio ar frics oedd y dewis a ffefrir. Dyma'r dewis mwyaf diogel a'r un sydd angen y gwaith cynnal a chadw parhaus lleiaf. Dywedwyd wrthyf y croesawyd y dewisiadau yn y cyfarfod cyhoeddus.

Caiff llythyr ei anfon at yr holl breswylwyr cyn hir i ymgynghori â nhw ar y cynigion. Yn dilyn rhai archwiliadau technegol terfynol, byddwn yn barod wedyn i gaffael contractwr, gyda'r nod o ddechrau ar y safle ddiwedd haf 2020. Byddwn, wrth gwrs, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ward ynghyd â phreswylwyr.

Cwestiwn Ategol – Y Cynghorydd Burke-Davies

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i swyddogion a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau a phreswylwyr perthnasol. Ond yn bwysicaf oll, gaf i ofyn i chi ymuno â mi i ddiolch i'r preswylwyr sydd wedi bod mor amyneddgar yn yr hyn sydd heb os yn gyfnod anodd iawn, yn enwedig gan ei bod yn ymddangos bod yna ddiwedd mewn golwg.

Ateb – y Cynghorydd Thorne

Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith ei bod wedi cymryd peth amser i gyrraedd yr ateb hwn, ond rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi a'r preswylwyr, rwy'n credu yn y pen draw ei bod yn well gwneud yn siŵr ein bod yn cael yr ymgynghorwyr i wneud yn siŵr ein bod wedi gwneud y penderfyniad cywir. Rhaid i mi ddweud, mae'r preswylwyr wedi bod yn eithriadol amyneddgar. A phe gallem fod wedi ei wneud yn gyflymach, rwy'n siŵr y byddem wedi gwneud hynny.

Cwestiwn – y Cynghorydd Hudson

Fydd ardaloedd â blaenoriaeth yn cael eu targedu ar gyfer symud mesurau culhau ffyrdd fel y amlinellwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Rydym wedi dechrau ar y broses o symud mesurau culhau ffyrdd. Rydym yn datblygu rhestr sydd wedi'i seilio'n arbennig ar flaenoriaethau lle mae'n mynd i helpu gyda theithio ar fysus.

Gaf i ofyn pa un rydych yn cyfeirio ato? Yn ôl fy nealltwriaeth, mae’r un yn Heath Park Avenue eisoes wedi’i gwblhau. Mae'n un o'r rhai cyntaf a wnaethom.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Hudson

Wrth yrru o gwmpas y ddinas rwyf wedi sylwi ar gryn dipyn o ddatblygiadau newydd ac roeddwn yn pryderu'n arbennig y gallai'r flaenoriaeth newid gyda'r datblygiadau newydd gan fod dynameg teithio’n newid yn fawr. Felly nid yw mewn unrhyw ardal benodol, ond nodaf yr hyn a ddywedwch am Heath Park Avenue.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Molik

Wrth inni groesawu'r cynnydd yn y llwybrau beicio, beth rydym yn ei wneud i sicrhau bod y rheini sy'n llai symudol yn ddiogel ar ein ffyrdd a'n llwybrau ac nad ydym yn cael rhagor o anafiadau i bensiynwyr a phobl anabl?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Mae llwybrau beicio wrth gwrs yn ffordd o wahanu beicwyr oddi wrth gerddwyr, ac yn bwysig cerbydau.

Rydych chi wedi sôn ychydig o weithiau am feicwyr ac a yw'n achosi diogelwch. Achosir 99% o anafiadau i gerddwyr gan geir - 99% o’r marwolaethau. Mae hanner y bobl hynny'n bobl hŷn, mae 83% o farwolaethau beicwyr yn cael eu hachosi gan geir. Ac unwaith eto pobl hŷn yw'r rhain yn bennaf. Nid oes unrhyw dystiolaeth ffeithiol y gallaf ei gweld sy'n dangos bod perygl i bobl o fwy o bobl yn teithio ar feiciau.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Molik

Wrth gwrs rydym yn edrych ar ffigyrau ac nid fy mwriad oedd cymharu gyrwyr â beicwyr. Y bwriad oedd sicrhau, wrth i ni groesawu'r cynnydd mewn beicwyr, ein bod hefyd yn sicrhau’r elfen ddiogelwch, wrth gwrs, bu’r ddamwain honno ychydig cyn y Nadolig pan wnaeth beiciwr anafu pensiynwr oedrannus yn ddifrifol.

Mae degau o filoedd o ddamweiniau’n cynnwys beicwyr yn digwydd bob blwyddyn, mae cannoedd a miloedd yn arwain at farwolaethau sy’n cynnwys beicwyr yn fwy nag unrhyw un arall, a nodwn hefyd fod cyfradd marwolaeth yn uwch ar gyfartaledd mewn gwledydd fel Gwlad Belg, Denmarc a'r Iseldiroedd. A'r prif reswm dros hyn yn tueddu i fod yn gamgymeriad neu ymateb beiciwr. A dyma'r hyn rwy'n gofyn i chi ystyried wrth fynd i'r afael â hyn sef ein bod yn gwneud yn siŵr bod ein beicwyr yn gallu beicio'n ddiogel ar draws y ddinas heb achosi anaf i gerddwyr neu fel arall.

Ateb - y Cynghorydd Wild

Rhaid i mi anghytuno eto. Gwall y gyrrwr yw gwall gyrrwr y car nid y beiciwr. Gyrwyr ceir yw prif ffynhonnell marwolaethau beicwyr. Rwy'n cytuno'n llwyr o ran diogelwch ac o ran sicrhau ein bod i gyd yn rhannu gofod yn iawn ac yn ymddwyn wrth i fwy o bobl ddechrau defnyddio ein gofodau.

Y lleoliad y sonioch amdano, rydym bellach yn cyflwyno cynigion i'w ehangu fel y gall pobl deithio o amgylch yr ardal honno'n ddiogel. Mae angen i bob un ohonom newid. Y prif beth mae angen i ni ei wneud yw cael ceir sy'n gyrru'n arafach o lawer o gwmpas canol y ddinas. Dyna pam rydym mor awyddus i gael parth 20mya a'r rheswm dros yr holl waith rydyn ni'n ei wneud o amgylch yr ysgolion yn ogystal, mae'n rhaid i hynny fod yn flaenoriaeth i ni.

Cwestiwn – y Cynghorydd Derbyshire

sA oes modd i mi gael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiad ar hen safle Ysgol Uwchradd y Dwyrain/Tredelerch ar Heol Casnewydd sydd i fod i gychwyn yn ddiweddarach eleni ac, yn benodol, o ran bioamrywiaeth a chynaliadwyedd?

Ateb – y Cynghorydd Thorne

Diolch i'r Cynghorydd Derbyshire am roi'r cyfle i mi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ac i'r Cyngor am y datblygiad yn cynnwys 214 o gartrefi carbon isel newydd. A allai fod yn gynllun a fydd yn ennill gwobrau.

Mewn partneriaeth â Wates a Sero Homes, rydym wedi derbyn Grant Arloesi Llywodraeth Cymru gwerth £3,800,000 er mwyn sicrhau datblygiad carbon isel lle mae pob cartref yn cyflawni lefel uchel o ynni effeithlon ac yn cael biliau sylweddol llai.

Bydd gan bob cartref bwmp gwres o'r ddaear, paneli solar gyda batri i storio ac ailddefnyddio trydan a man gwefru cerbydau trydan. Caiff y cartrefi eu hadeiladu gan ddefnyddio dull ffabrig yn gyntaf a disgwylir iddynt gyflawni gradd A o ran effeithlonrwydd ynni.

Y rhan gyffrous arall o'r cynllun yw'r bartneriaeth rhwng Wates, ein tîm i mewn i waith a Fframwaith Adeiladu Cydweithredol SEWSCAP.

Rydym wedi derbyn £1.8 miliwn i sefydlu canolfan hyfforddi sgiliau adeiladu ar safle'r datblygiad a fydd yn arwain at 750 o unigolion di-waith yn dod yn barod ar gyfer y safle. Mae 750 o fyfyrwyr coleg yn cael profiad gwaith ar y safle ac mae 225 o unigolion sy'n barod i fod ar y safle yn cael cyflogaeth barhaus a bydd 65 ohonynt yn dod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Cwestiwn atodol - y Cynghorydd Derbyshire

Rwy'n credu ei fod yn gynllun cyffrous iawn ar safle gwych, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno. Onid oes modd i ni fod yn ceisio defnyddio hyn yn awr fel esiampl i ddatblygwyr eraill yn y ddinas? I ddweud wrthynt mai dyma'r fath o beth rydym yn

credu, fel Cyngor, y dylent fod yn ei wneud er mwyn gwneud y ddinas hon yn fwy cynaliadwy.

Ateb – y Cynghorydd Thorne

Yn sicr, ond mae hyn yn gysylltiedig â'r cynnig blaenorol y cytunwyd arno yng nghyfarfod y Cyngor. Bydd y cynllun hwn ynghyd â chynllun tai goddefol yn y Mynydd Bychan, ac ynghyd â Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i wneud rhywfaint o ymchwil ac i lunio ystadegau i weld sut y gallwn ni, ac mewn gwirionedd, a allwn ni gael cartrefi di-garbon wedi'u hadeiladu'n gyflym ac ar raddfa, a chost gwneud hynny.

Ac rwy'n credu mai'r peth gwych am hyn yw y bydd nifer mawr o’r cartrefi a adeiladir ar gael i’w prynu. Felly byddant yn uwch o ran pris gwerthu na chartrefi arferol. Rydym wedi bod yn trafod gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality ac maent wedi cytuno i gynnig morgais gwyrdd sy'n ystyried y bydd biliau ynni pobl dros y blynyddoedd yn llawer is, sy'n golygu y bydd yr incwm sydd ar gael iddynt yn uwch, felly byddant yn ystyried hynny wrth gynnig morgeisi. Felly rwy’n credu, pe gallwn ni ddangos ei fod yn gweithio, pe gallwn ni ddangos bod y tai yn gwerthu'n gyflym ac yn hawdd yna rwy'n siŵr y byddai datblygwyr yn cymryd rhan.

Cwestiwn – y Cynghorydd Bowden

A allech nodi faint o gymorth ariannol yr wythnos y mae gofalwyr sy'n berthnasau yn ei gael gan Gyngor Caerdydd o'i gymharu â Gofalwyr Maeth?

Ateb – y Cynghorydd Hinchey

Mae dau brif gategori o daliad wythnosol a delir i Ofalwyr sy’n Berthnasau a Gofalwyr Maeth – lwfansau a ffioedd. Felly mae lwfansau wythnosol yn cael eu talu mewn perthynas â phob plentyn, yn seiliedig ar ei oedran - sef y lwfans craidd sylfaenol y mae gofalwyr yn ei gael i dalu am y costau sydd ynghlwm wrth ofalu am blentyn. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r safon ofynnol genedlaethol ar gyfer y taliadau hyn ac mae Caerdydd yn talu yn ôl y safon ofynnol genedlaethol neu'n uwch.

Rwy'n falch o ddweud nad oes gwahaniaethau yng nghyfradd y taliadau lwfansau wythnosol a delir i ofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau. Mae'r cydraddoldeb hwn hefyd yn berthnasol i daliadau ychwanegol a wneir mewn perthynas â gwyliau, penblwyddi a gwyliau crefyddol, sy'n cael eu talu yn ychwanegol at y lwfans wythnosol.

Telir ffioedd wythnosol i'n holl Ofalwyr Maeth yng Nghaerdydd er mwyn cydnabod eu hamser, eu sgiliau a'u profiad fel rhan o'u gwobr am y gwaith y maent yn ei wneud. Rydym yn talu ffi £200 er mwyn ein galluogi i fod yn gystadleuol â'n marchnad Asiantaethau Maethu Annibynnol ac i gynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol yr ydym wedi ymrwymo iddynt ar hyn o bryd.

Mae taliadau ffioedd wythnosol o hyd at £175 yr wythnos hefyd yn cael eu gwneud i rai o'n Gofalwyr sy'n Berthnasau, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Gall hyn amrywio yn ôl a ydynt yn gallu hawlio rhai budd-daliadau fel aelodau teulu cysylltiedig.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Bowden

Bu llawer o drafodaeth am hyn yn genedlaethol, am y gwahaniaeth rhwng rhieni maeth a gofal gan berthynas. Ac fel y gallwn gadarnhau yng nghyfarfod y PCRhC mewn gwirionedd nid ydym yn talu'r ffi i berthnasau, dim ond y lwfans rydym yn ei dalu. Mae hyn yn golygu bod gwahaniaeth rhwng yr hyn rydym yn ei dalu i ofalwyr maeth a'r hyn rydym yn ei dalu i berthnasau, ac eto rydym yn gofyn iddyn nhw wneud yr un peth.

A ydych chi'n credu bod hynny'n deg?

Ateb – y Cynghorydd Hinchey

Yn gyntaf oll, mae'r gwahaniaeth yn amlwg wedi'i gysylltu ag aelodau teulu - aelodau a oedd yn fam-guod a thad-cuod neu'n aelodau teulu sy'n gofalu amdanynt. Gallant hawlio budd-daliadau eraill fel budd-daliadau plant a phethau eraill.

Ond mae'r cydraddoldeb yn fater rydym am ei gydnabod ac mae'n amlwg eich bod yn codi hynny yng nghyfarfodydd y PCRhC ac rydym wedi'i drafod sawl gwaith. Yn wir, rwy'n credu bod y Cyfarwyddwr wedi ysgrifennu atoch ychydig wythnosau'n ôl yn amlinellu rhai o'r gwahaniaethau a'r anghydraddoldeb, nid yn unig yng Nghymru, ond ledled y DU. Dylech chi fod wedi cael rhywfaint o wybodaeth sawl wythnos yn ôl.

Ond, yn amlwg, byddwn yn sicr yn siarad â Llywodraeth Cymru am yr anghydraddoldebau a sut i ail-gydbwyso hynny. Ond os oes rhai teuluoedd sy'n ofalwyr sy'n berthnasau sy'n ei chael hi'n anodd neu'n cael anhawster, dywedwch wrthym. Byddem yn awyddus i'w cefnogi mewn unrhyw ffordd y gallwn.

Gaf i orffen drwy ddweud bod y rhaglen gofal maeth a'r gwthio gan Aelodau wedi bod yn gwbl ragorol. Hoffwn ddiolch i'r aelodau am fod dros 30 o asesiadau newydd yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd ac mae hynny'n ymateb gwych. Felly diolch i'r Aelodau.

Cwestiwn – y Cynghorydd Driscoll

Wrth i gynigion datblygu pellach ar safle blaenorol y BBC a'r safle Plasdŵr newydd fwrw ymlaen, pa gynlluniau sydd ar waith i ehangu trafnidiaeth gyhoeddus yng ngogledd-orllewin Caerdydd drwy Landaf i gyflawni'r uchelgais ar gyfer rhaniad moddol 50:50?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Roeddwn i'n falch iawn, roedd y cyfarfod y cawsom sbel yn ôl gyda'ch cydweithwyr y Cynghorydd Hill-John, y Cynghorydd Thomas yn ddefnyddiol iawn, ac rwy'n meddwl bod sawl un ohonoch yn gofyn am fwy o wybodaeth am hyn, yr ydym wedi ei chyflwyno ar ffurf llyfryn a fyddwch wedi'i weld ar-lein. Mae'n amlinellu'r holl ymyriadau trafnidiaeth sy'n cael eu cynllunio fel rhan o ddatblygiad Plasdŵr o ran y cam cyntaf, yr ychydig gamau cyntaf, yn amlwg mae camau pellach yn eu dyddiad cynnar.

Mae £26 miliwn eisoes wedi’i roi gan Adran 106 ar gyfer ymyriadau trafnidiaeth, mesurau blaenoriaeth bysus rydych eisoes yn gwybod amdanynt a llu o bethau eraill. Yn ogystal â'r cyhoeddiad a wnaethom o ran uchelgeisiau ar y papur gwyn ar gyfer y Gogledd-orllewin hefyd. Rwy'n credu bod yna stori dda i'w hadrodd yno, mae llawer o welliannau'n cael eu gwneud, er yn amlwg mae anawsterau o ran symud ffyrdd cymharol denau a cheisio gwneud rhai ymyriadau eithaf mawr yno.

Cwestiwn Ategol – y Cynghorydd Driscoll

Diolch am eich ateb ac edrychwn ymlaen at yr holl seilwaith yr ydych wedi’i addo i ni, ond nid oedd mor bell yn ôl y cyflwynais ddeiseb i achub y llwybrau bysus o Radur i ddod drwy Landaf. Gallwch ofyn i bobl adael eu ceir i fynd ar fws, ond ni allant fynd ar fws. Felly, a ydych chi’n cefnogi Bws Caerdydd o ran lleihau llwybr bws 63 gan draean? Beth ydych chi'n mynd i'w wneud am y peth os nad ydych yn ei gefnogi?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Penderfyniad masnachol ar gyfer Bws Caerdydd ydy hynny mae’n ddrwg gen i a bydd yn rhaid i chi ei godi gyda nhw.

Cwestiwn – y Cynghorydd Berman

Beth yw amser targed y Cyngor ar gyfer symud gwydr sydd wedi’i dorri o'r briffordd neu'r feicffordd ar ôl cael gwybod amdano?

Ateb – y Cynghorydd Michael

Rhyddhawyd yr app glanhau strydoedd ym mis Medi 2019 i alluogi cwsmeriaid i roi gwybod am wahanol faterion glanhau gan gynnwys baw cŵn, nodwyddau a gwydr wedi’r dorri. Yn debyg i bob gwasanaeth a ddatblygwyd ar gyfer yr app, mae hyn yn cael ei ailadrodd ar y wefan ac o fewn C2C er mwyn cysondeb ac mae’n ei wneud mor gyflym a hawdd â phosibl i breswylwyr roi gwybod am broblemau sbwriel.

Bydd y tîm Glanhau Strydoedd yn mynd i leoliadau gwydr sydd wedi’i dorri y rhoddwyd gwybod amdanynt cyn gynted â phosibl. Mae hyn fel arfer o fewn 24 awr neu un diwrnod gwaith.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Berman

Fe wnes i gael twll gan wydr wedi’i dorri ddeuddydd ar ôl i mi roi gwybod amdano, cyn iddo gael ei lanhau. Ac yna y tro nesaf i mi basio'r safle hwnnw sylwais fod tua hanner y gwydr wedi’i dorri yn dal yno felly, bu'n rhaid imi roi gwybod amdano eto felly cymerodd tua wythnos i gyd cyn i'r holl wydr wedi’i dorri gael ei symud o’r feicffordd honno.

Nawr o ystyried y ffaith ein bod am annog mwy o bobl i feicio, mae angen inni wneud rhywbeth ynglŷn â hynny. Felly, ydych chi'n meddwl bod angen i ni efallai wneud mwy o ymdrech na dim ond rhoi targed i lanhau cyn gynted â phosibl? Gan gael gwared ar wydr sydd wedi’i dorri naill ai ar y briffordd neu'r feicffordd, lle mae'n berygl amlwg, ar yr un diwrnod neu’r diwrnod ar ôl y ceir gwybod amdano.

Ateb – y Cynghorydd Michael (03:24:54)

Mae'n ddrwg gen i eich bod wedi cael twll. Byddwn i wedi eich helpu pe bawn wedi bod yno yn amlwg gan roi lifft i chi neu rywbeth am ffi.

Mae yna rywbeth fel 3000 milltir o ffyrdd yn y ddinas hon ac ni allaf warantu y bydd pob modfedd o'r ffordd honno'n lân, yn rhydd o sbwriel ac yn rhydd o wydr. Rydym yn ceisio glanhau mor gyflym â phosibl.

Os gallwch anfon e-bost ataf gyda'r holl bethau yr ydych am eu cael, rwy'n hapus i godi'r peth gyda swyddogion neu os ydych am i mi roi ffurflen i chi er mwyn i chi wneud cais,  rwy'n ddigon hapus i anfon honno atoch.

Cwestiwn - y Cynghorydd Robson

Pa drafodaethau a gafodd Arweinydd y Cyngor gydag arweinwyr awdurdodau cyfagos cyn cyhoeddi'r papur gwyn "Gweledigaeth Trafnidiaeth hyd 2030 - Newid sut rydym yn symud o gwmpas dinas sy'n tyfu"?

Ateb – y Cynghorydd Huw Thomas

Cefais drafodaethau anffurfiol gyda Chadeirydd Bargen Ddinas Prifddinas-ranbarth Caerdydd yn ogystal â Chadeirydd yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n sefyll dan y sefydliad hwnnw.  Deallaf fod brîff yn mynd i gael ei roi i'r RTA yn y cyfarfod nesaf hwn

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Robson

Felly, wrth wrando ar eich ateb - nid ydych wedi cael cyfarfodydd gydag arweinwyr y cyngor cyfagos i ddatblygu'r papur gwyn arfaethedig y buom yn ei drafod yn gynharach heno? Maen hyn yn ddiddorol oherwydd rwy'n credu petaech chi wedi gallech efallai fod wedi gallu tawelu meddyliau rhai ohonynt o ran eich cynigion o'ch safbwynt chi. Ac mewn gwirionedd, pan siaradais yn y ddadl, siaradais am y teimlad pennaf sy'n canolbwyntio ar y tâl tagfeydd, sef yr un peth mewn gwirionedd sydd wedi dal sylw'r wasg a'r cyhoedd, ac aelodau'r Cynulliad hefyd.

Ar yr achlysur hwn, rwy'n credu pe baech chi a'ch cydweithwyr yn y Cabinet wedi gwneud eich gwaith cartref a siarad ag awdurdodau cyfagos, gallech fod wedi lleihau'r teimlad o bosibl ac egluro mai'r hyn yr oeddech chi'n ei olygu mewn gwirionedd oedd unwaith y byddai'r holl welliannau trafnidiaeth wedi'u gwneud y byddech yn edrych ar y tâl tagfeydd. Rwy'n credu eich bod wedi gwneud camgymryd o ran sut y gwnaethoch ddelio ag ef felly, gellid bod wedi osgoi llawer o'r feirniadaeth rydych yn ei chael yn awr.

Ateb – y Cynghorydd Huw Thomas

Fel gwleidydd, nid oes ots gen i gael beirniadaeth, y Cynghorydd Robson. Os darllenwch y ddogfen, fel rydych wedi'i wneud, mae'n siŵr, fe welwch yn glir ei bod

yn dweud na fyddai mecanwaith codi tâl posibl yn dod i rym nes i welliannau gael eu rhoi ar waith.

Rwy’n cael fy nghofnodi’n dweud fy mod wedi gwario swm sylweddol o refeniw, y byddai unrhyw dâl tagfeydd a godir yn cael ei wario yn y rhanbarthau cyfagos. Felly, rwy'n disgwyl i chi fel uwch wleidydd Ceidwadol helpu i'w gwneud yn glir a rhoi sicrwydd i gydweithwyr rhanbarthol o ran beth yn union mae Caerdydd yn bwriadu ei wneud ac rwy'n siŵr y byddwch yn gwneud hynny.

Cwestiwn – y Cynghorydd Sandrey

Ymddengys fod llwybrau cerdded sy'n cynnwys tarmac yn unig yn fwy tueddol o fagu rhew ac iâ. Fel rhan o gynlluniau i annog mwy o deithio llesol, a wnaiff y Cyngor ystyried graeanu llwybrau cerdded allweddol fel y gall pobl barhau i deithio ar droed ac ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ystod y tywydd oerach?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Mae'r Cyngor yn trin yn rheolaidd rhwydwaith troetffordd sydd wedi'i flaenoriaethu yn ystod cyfnodau oer yn bennaf yng nghanol y ddinas a'r cyffiniau, ond yn ystod amodau hirach neu fwy anffafriol rydym hefyd yn dargyfeirio adnoddau i ganolfannau siopa ardal, hybiau a meddygfeydd. Ac wrth gwrs mae'r biniau graean ar gael o hyd i bobl yn lleol er mwyn iddyn nhw allu graeanu yn y Fro hefyd, ond rydym yn gofyn iddyn nhw beidio â defnyddio hwnnw ar eu tramwyfeydd preifat eu hunain.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Sandrey

Rwy’n poeni am y tarmac sy’n cymryd lle palmentydd yn gynyddol. Felly a dderbyniwch fod blaenoriaethu ffyrdd yn anfon y neges bod cerddwyr yn cael eu hystyried yn llai pwysig na gyrwyr?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Yn anffodus y gwir yw dros y blynyddoedd mae wedi bod dyletswydd gyfreithiol arnoch i gadw'r ffyrdd ar agor, strategaeth - nid ydym ni o ran y palmentydd niferus sydd, dros y blynyddoedd yn hanesyddol, yn dangos sut mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu newid, dros flynyddoedd o galedi a thoriadau yn y sector cyhoeddus.

Rwy’n ceisio cael tystiolaeth o ran a oes angen gwahanol fath o driniaeth ar yr arwyneb. Rwyf eisoes wedi gofyn i bobl ymchwilio i'r peth ac a oes angen ei newid. Rydym hefyd wedi dechrau graeanu Taith Taf oherwydd y defnydd ohoni a rhai o'r peryglon i feicwyr a cherddwyr.

Cwestiwn – y Cynghorydd Burke-Davies

Rydym wedi cael sesiynau casglu sbwriel llwyddiannus yng Ystum Taf ac rydym yn ailgyfansoddi grŵp 'Cyfeillion' yn lleol. A fyddech yn gallu darparu offer casglu sbwriel yn yr Hyb y gall y grŵp hwn a phreswylwyr eraill ei ddefnyddio i wneud sesiynau casglu sbwriel?

Ateb – y Cynghorydd Michael

Mae offer casglu sbwriel yn cael ei ddarparu yn yr Hyb, sydd wedi cael ei ddefnyddio yn nigwyddiadau casglu sbwriel gwirfoddol yn Ystum Taf. Er mwyn cael mynediad at yr offer hwn, byddai angen i unigolion gofrestru fel ymgyrchwyr sbwriel a dylent gysylltu â’r Cydlynydd Datblygu Cymunedol Carwch Eich Cartref dros e-bost. Byddai'r tîm hefyd yn ceisio cynnig rhagor o offer i gefnogi'r grŵp 'cyfeillion' a ailgyfansoddwyd, yn dibynnu ar faint y grŵp.

Cwestiwn Ategol – Y Cynghorydd Burke-Davies

Lle mae cyllidebau'n caniatáu, a yw'n bosibl ymestyn y cynnig hwn i hybiau eraill yn y ddinas?

Ateb – y Cynghorydd Michael

Rwy'n hapus i drefnu cyfarfod rhyngof i, chi a Carwch Eich Cartref a chefnogi'r gwaith gwych rydych chi'n ei wneud yng Ystum Taf.

Cwestiwn – y Cynghorydd Williams

A all yr Aelod Cabinet amlinellu faint o arian a fydd yn cael ei gynnwys yng nghyllideb arfaethedig Cyngor Caerdydd ar gyfer 2020/21 i gefnogi cwmnïau bysus?

Ateb – y Cynghorydd Weaver

Fel y gwyddoch yn iawn, ni fyddai'n briodol i mi roi sylwadau ar unrhyw fanylion am y gyllideb cyn y cyfarfod y mis nesaf. Ond fe fyddwch galonnog o'r ffaith bod 29 diwrnod tan i ni gael y ddadl honno y byddwch yn cymryd rhan lawn ynddi, rwy’n siŵr.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Williams

Mewn ymateb i hynny a fyddai'r Aelod Cabinet yn cytuno â mi ei bod yn briodol bod unrhyw arian sy'n cael ei gynnwys yng nghyllideb arfaethedig Cyngor Caerdydd ar gyfer 2021 i gefnogi'r holl gwmnïau bysus yn dod o refeniw ac nad yw’n cael ei fenthyca?

Ateb – y Cynghorydd Weaver

Mae'n briodol peidio â gwneud sylwadau ar fanylion cyllideb y mis nesaf. Yr hyn y byddwn yn glir iawn amdano yw os mai'r hyn rydym yn ei wario yw refeniw, bydd yn dod o refeniw, ac os mai’r hyn rydym yn ei wario yw cyfalaf, bydd yn dod o gyfalaf.

Cwestiwn - y Cynghorydd Hopkins

A oes gan y weinyddiaeth unrhyw gynlluniau i osod saethau cyfeiriadol yn y ddwy lôn ar bob un o'r ffyrdd sy'n agosáu at groesffordd Rhyd-y-pennau i wella diogelwch ar y ffordd ar y gyffordd draffig brysur a pheryglus hon?

Ateb - y Cynghorydd Wild (03:31:56)

Fy nealltwriaeth i yw bod y Cynllun Diogelwch ar y Ffyrdd wedi cael ei weithredu yn y lleoliad hwnnw yn 2016 ac rwy'n credu yn ystod y 3 blynedd cyn y gweithredu hwnnw y cafwyd cryn dipyn o ddigwyddiadau, 2 ddigwyddiad difrifol ac 13 o ddigwyddiadau bach.

Ers hynny rydym wedi gwneud gwaith monitro ar ôl gweithredu ar y lleoliad hwnnw, y gylchfan honno, ac yn dilyn y newidiadau hynny yn 2016 ymddengys mai 2 ddigwyddiad yn unig a geir, ac er nad ydym am weld unrhyw ddigwyddiadau, bu gwelliant mawr o ran diogelwch y gyffordd honno.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Hopkins

Ar hyn o bryd, mae gyrwyr sy'n defnyddio'r ddwy lôn sy'n agosáu at groesffordd Rhyd-y-pennau o bob cyfeiriad yn gallu mynd yn syth ymlaen yn y naill lôn neu'r llall, ac mae hyn yn aml yn achosi'r broblem pan fydd gyrwyr yn dewis mynd yn syth ymlaen o bob un o'r lonydd ar yr un pryd.

Felly, o ystyried y ffaith y ceir tagfeydd wrth y gyffordd hon eisoes ar adegau penodol o'r dydd a'r cynnydd pellach tebygol mewn traffig pan fydd yr hyb lles newydd ar agor yn Llyfrgell Rhyd-y-pennau, a gaf i ofyn i'r Cynghorydd Wild fynd yn ôl a gofyn i swyddogion edrych eto ar y cais hwn er mwyn bod yn siŵr ein bod yn gwneud popeth a allwn i atal damweiniau ffyrdd ar y groesffordd brysur hon?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Mae gen i ymateb hir i chi o ran holl ddiffiniadau gwahanol Rheolau’r Ffordd Fawr ond yn ysbryd eich cwestiwn mae'n swnio'n rhesymol iawn ac fe wnaf yn siŵr bod swyddogion yn rhoi sylw llwyr i hynny ac yn dod allan i edrych gyda chi.

Cwestiwn – y Cynghorydd Burke-Davies

Mae Caerdydd wedi bod yn ailgylchu’n wych a deallaf mai ni yw'r ddinas graidd orau yn y DU. Deallaf eich bod yn ystyried cyflwyno ymgyrch sticer pinc sy'n rhybuddio'r trigolion bod gwastraff ailgylchu wedi'i halogi. Beth yw'r prif gydrannau sy'n halogi ac a allech amlinellu sut y bydd hyn yn gweithio?

Ateb – y Cynghorydd Michael

Mae halogiad presennol gwastraff ailgylchadwy cymysg yn golygu bod 24% o tua 10,000 tunnell o ailgylchu yn cael eu colli bob blwyddyn. Mae'r prif halogiad yn dod o fwyd, hylendid a dillad.

Mae lefelau halogiad mewn gwastraff gardd yn is, gyda 5% neu 1,000 tunnell yn cael eu colli bob blwyddyn. Mae'r prif halogiad yn dod o eitemau yn yr ardd megis ffensys, potiau plastig, dodrefn patio, asbestos a hyd yn oed gorachod gardd.

Mae'r math hwn o halogiad yn gostus i'w reoli ac ynghyd, mae'n costio tuag £1 miliwn i'r Cyngor.

Nid yw’r ymgyrch 'Sticer Pinc' sydd ar fin cael ei lansio ar y 2 Mawrth yn ymwneud â gorfodi, ond mae’n ymwneud â hybu a gwella arferion ailgylchu da ymysg trigolion. Mae'r cyfan yn ymwneud â'r Cyngor yn rhoi cyngor, addysg a chymorth i breswylwyr i'w helpu i gyflawni hyn.

Bydd y sticeri pinc yn cael eu rhoi ar finiau ailgylchu halogedig gan griwiau casglu’r rheng flaen, ond byddan nhw hefyd yn cofnodi manylion yr eiddo a'r halogiad yn eu system rheoli gwastraff yn y cerbyd.

Mae'r sticer pinc yn gofyn i breswylwyr fynd â'u gwastraff yn ôl i'w heiddo a'i lanhau cyn ei gyflwyno eto ar y dyddiad casglu nesaf.

Os bydd ail sticer yn cael ei osod yna byddwn yn ymweld â’r eiddo. Yr hyn rydym yn ceisio ei wneud yw gwneud pobl yn ymwybodol ... Rydym yn ceisio gwneud trigolion yn ymwybodol o arian eu treth gyngor sy’n cael ei ddefnyddio ar gyfer hyn. Mae angen i ni leihau faint yr halogi sydd ac mae hyn yn ddechrau ar ymgyrch addysg. Nid yw'n ymwneud â gorfodi, mae'n ymwneud â mynd â'r cyhoedd gyda ni.

Cwestiwn – y Cynghorydd Melbourne

Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod prydlondeb a phresenoldeb disgyblion yn yr ysgol yn ffactor allweddol er mwyn sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Pa sicrwydd a roddwch i ddisgyblion Caerdydd sy'n defnyddio bysus ysgol y byddant yn cyrraedd yr ysgol, nid yn unig ar amser, ond gyda digon o amser i baratoi ar gyfer y diwrnod o'u blaenau?

Ateb - y Cynghorydd Merry

Mae'r holl wasanaethau bws ysgol sydd wedi’u contractio gan y Cyngor yn cael eu cynllunio gyda thraffig mewn cof a disgwylir iddynt gyrraedd 10 munud cyn amser dechrau'r ysgol.

Mae'r amseroedd y mae bysiau'n cyrraedd ysgolion yn cael eu monitro a'u haddasu'n gyson yn ôl unrhyw faterion traffig sy'n dod i'r amlwg a chaiff yr amseriadau eu haddasu'n unol â hynny.

Mae hefyd gan y Cyngor system pwynt cosb ar ei gontractau a rhoddir pwyntiau cosb i weithredwyr os nad ydynt yn cyflawni yn unol â gofynion eu contractau. Caiff contractau eu diddymu os nad yw'r perfformiadau yn foddhaol.

Mae nifer fawr o ddisgyblion yn defnyddio gwasanaethau bws masnachol i deithio i'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw amserlennu'r gwasanaethau hyn dan reolaeth y Cyngor ac mae'r gweithredwr a'r Comisiynydd traffig yn monitro hyn.

Yn y pen draw, mae gan y Comisiynydd Traffig yr awdurdod i osod sancsiynau ar weithredwyr masnachol os nad yw'r gwasanaethau'n gweithredu yn ôl yr amserlen a hysbysebir.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Melbourne

Felly, yng ngoleuni'r problemau parhaus gyda'r bws N80, dywedoch ei fod yn fws dan gontract. Hyd yn oed eleni, roedd angen i fyfyrwyr Glan Taf aros am awr mewn tywydd rhewllyd, tywydd rhewllyd mis Ionawr, i gael eu casglu ar gyfer yr ysgol gan eu gadael dan straen, yn bryderus ac yn gorfod cysylltu â rhieni a olygodd nad oeddent yn barod ar gyfer y diwrnod i ddod.

Amharwyd hefyd ar gasgliadau'r llynedd ar gyfer Llanisien, Esgob Llandaf a Glan Taf a olygai i ddisgyblion gyrraedd yn bryderus, dan straen ac yn hwyr yn yr ysgol. Sut y bydd y Cyngor yn sicrhau bod disgyblion o'r ysgolion hyn yn cyrraedd nid yn unig ar amser ond, yn wahanol i ddisgybl yn Llanisien y llynedd, gydag amser i baratoi ar gyfer arholiadau TGAU? Gyda'r arholiadau TGAU ar y gorwel unwaith eto, pa sicrwydd sydd gennych i sicrhau bod disgyblion yn cael digon o amser i baratoi ar gyfer eu harholiadau TGAU a allai ddechrau am 9am?

Ateb - y Cynghorydd Merry

Byddwn yn eich cyfeirio at yr ateb rwyf newydd ei roi a hefyd y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau bws masnachol a gwasanaethau bws wedi’u contractio, dwy system wahanol ydynt. Fodd bynnag, os byddwch yn cysylltu â mi, gan nad ydych wedi codi'r mater hwn gyda mi, gallaf ymchwilio ymhellach iddo.

Cwestiwn – y Cynghorydd Hudson

Mae blociau fflatiau uchel yn cael eu hadeiladu’n gyflym yng nghanol y ddinas sydd heb lawer o leoedd parcio. Pa sicrwydd y gallwch ei roi inni y gall pobl anabl fyw ynddynt, ymweld â hwy neu gael gofal yn y fflatiau hyn os nad oes lleoedd parcio?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Mae canllawiau cynllunio atodol yn cynghori y dylid ystyried deiliaid bathodynnau glas wrth ddatblygu eu cynlluniau. Gellir cynnig lleoedd parcio yn y safleoedd hyn yng nghanol y ddinas ac wrth gwrs gall pobl sydd â gofynion bathodyn glas hefyd wneud cais i osod baeau gerllaw.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Hudson

Nid yw hyn yn mynd i'r afael â'r angen am ofalwyr. Mae gennyf rai amheuon ynglŷn â hyn, nid yw'r agwedd ar anabledd yn cael sylw, mae'n bryd galw am adolygiad o safonau parcio. Nid ydym yn rhoi i’n pobl anabl ansawdd bywyd gwell na hyd yn oed cydraddoldeb oherwydd gallen nhw ddod yn anabl ar ôl symud i mewn i'r eiddo. A fyddech chi’n ein helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn drwy bwyso am adolygiad efallai?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Nid wyf yn credu bod angen adolygiad. Fy nealltwriaeth i yw ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb o ran pobl anabl. Byddwn yn ailadrodd y gall pobl barhau i wneud cais am fathodyn glas yn yr ardaloedd cyfagos. Byddwn wrth gwrs yn

edrych bob amser i weld a ydych yn meddwl bod pethau o'i le ar hynny. Ac os hoffech eu hanfon ataf, fe wnaf hynny.

11 : PENODIADAU PWYLLGOR

Derbyniodd y Cyngor enwebiadau a phenododd i swyddi gwag pwyllgor cyfredol fel y nodir yn yr adroddiad ac yn unol â'r dyraniad cymeradwy o seddi a dymuniadau grwpiau gwleidyddol.

Cafodd yr enwebiadau canlynol eu derbyn a'u dosbarthu ar y Taflen Ddiwygio.

| **Pwyllgor** | **Swydd Wag** | **Grŵp** | **Enwebiad a dderbyniwyd** |
|---|---|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | 2 swydd wag | 2 x Llafur | Y Cynghorydd Simmons |
| Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol | 2 swydd wag | 1 x Annibynnol Gorllewin Caerdydd<br><br>1 x Ceidwadwr | Y Cynghorydd Linda Morgan |
| Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc | | 2 Geidwadwr | Y Cynghorwyr Melbourne a Mia Rees i gymryd lle'r Cynghorwyr Morgan a Parkhill. |
| Diogelu'r Cyhoedd | 3 swydd wag | 2 x Ceidwadwr<br><br>1 x Gorllewin Caerdydd Annibynnol | Y Cynghorydd Hudson |
| Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad | 2 swydd wag | 1 x Llafur<br><br>1 x Annibynnol Gorllewin Caerdydd | Y Cynghorydd Ahmed |
| Pwyllgor Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion | 1 swydd wag | 1 x Llafur | Y Cynghorydd Lister |
| Pwyllgor Amodau Cyflogaeth | 1 swydd wag | 1 x Ceidwadwr | Y Cynghorydd Rees |

| Pwyllgor | Swydd Wag | Grŵp | Enwebiad a dderbyniwyd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Pwyllgor Craffu Amgylcheddol | 1 swydd wag | 1 x Ceidwadwr | Y Cynghorydd Parkhill |
| Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant | 1 swydd wag | 1 x Llafur | Y Cynghorydd Lay |

PENDERFYNWYD: bod y Cyngor yn CYTUNO i benodi i'r swyddi gwag ar y Pwyllgorau yn unol â'r dyraniad cymeradwy o seddi a dymuniadau grwpiau'r pleidiau fel y nodir ar y Daflen Ddiwygio.

12 : MATERION BRYS

13 : BWS CAERDYDD: AIL-BENODI CYFARWYDDWYR ANWEITHREDOL ANNIBYNNOL

Penodi dau gyfarwyddwr anweithredol annibynnol i Fws Caerdydd

PENDERFYNWYD: bod y Cyngor yn CYTUNO i ail-benodi Sian Davies a Linda Philips fel cyfarwyddwyr anweithredol annibynnol Bws Caerdydd ar sail dros dro am gyfnod pellach o 12 mis.

14 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.